Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adolygiad o faterion a godwyd mewn gohebiaeth ag Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 557A2015

# Statws yr adroddiad

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a luniodd yr adroddiad hwn yn cynnwys David Rees a Virginia Stevens (KPMG), o dan gyfarwyddyd David Thomas.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Y Cefndir | 4 |
| Casgliad Cyffredinol | 5 |
| Argymhellion | 6 |
| Canfyddiadau manwl | |
| Rheoli'r fflyd, caffael a gwaredu cerbydau a llogi cerbydau | 7 |
| Caffael, gwaredu a defnyddio cyfarpar | 13 |
| Defnydd o Wasanaethau Ambiwlans Preifat a'r rheolaeth ar gyflenwadau'r GIG | 16 |
| Trefniadau goramser | 18 |
| Dosbarthu galwadau ac amseroedd ymateb | 18 |
| Pryderon ynghylch diogelwch cleifion | 20 |
| Pryder arall na adolygwyd yn rhan o'r archwiliad hwn | |
| Atodiadau | |
| Ymateb y rheolwyr | 24 |

# Adroddiad cryno

## Y Cefndir

**1.** Ym mis Ionawr 2015, ysgrifennodd aelod o Gynulliad Cymru (AC) at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog). Nodai'r llythyr nifer o bryderon ynghylch priodoldeb a gwerth am arian yr oedd aelodau staff Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi'u hanfon ato mewn perthynas ag arferion o fewn yr Ymddiriedolaeth. Anfonodd y Gweinidog yr ohebiaeth at Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth, gan ofyn am gael cynnal ymchwiliad priodol i'r cwynion. Yn dilyn hynny, gofynnodd y Cadeirydd i Brif Weithredwr dros dro yr Ymddiriedolaeth gomisiynu a goruchwylio ymchwiliad cadarn, agored a thryloyw i'r pryderon.

**2.** Ym mis Chwefror 2015, ysgrifennodd Prif Weithredwr dros dro yr Ymddiriedolaeth at Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn gofyn a fyddai modd iddo gynnal adolygiad annibynnol o'r pryderon. Gan fod rhai o'r pryderon yn cynnwys awgrymiadau ynghylch amhriodoldeb, cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal adolygiad rhagarweiniol er mwyn canfod a oedd unrhyw sylwedd i'r honiadau a fyddai'n cyfiawnhau cynnal ymchwiliad manwl.

**3.** Ar 20 Mawrth 2015, cynhaliwyd cyfarfod rhwng cynrychiolwyr archwilio a Phrif Weithredwr dros dro'r Ymddiriedolaeth er mwyn canfod sut y dylid ymchwilio i'r pryderon. Cytunwyd y byddai staff o Swyddfa Archwilio Cymru, a KPMG, sy'n cynnal archwiliad allanol yr Ymddiriedolaeth ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn cynnal cam cychwynnol y gwaith adolygu. Gan nad oedd gohebiaeth yr AC yn cynnwys llawer o fanylion archwiliadwy, na thystiolaeth i gefnogi'r materion a godwyd/honiadau a wnaed, cytunwyd y byddai staff archwilio yn cyfarfod â'r AC i ddechrau er mwyn canfod a oedd yn gallu darparu unrhyw wybodaeth bellach. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar 23 Ebrill 2015.

**4.** Er nad oedd yr AC yn gallu darparu llawer o wybodaeth ychwanegol, cynhaliodd gyfarfod pellach ar 5 Ionawr 2015 â'r unigolion a gododd y pryderon yn wreiddiol. Rhoddodd yr unigolion hynny ddigon o wybodaeth ychwanegol i'w defnyddio'n sail ar gyfer sawl ymholiad archwilio.

**5.** Gellid rhannu'r pryderon ac/neu'r honiadau'n fras i'r meysydd canlynol:

- rheoli fflyd, yn enwedig caffael, llogi a gwaredu cerbydau;
- y trefniadau ar gyfer caffael, gwaredu a defnyddio cyfarpar;
- y defnydd o ambiwlansys preifat a'r rheolaeth ar gyflenwadau'r GIG;
- trefniadau goramser;
- dosbarthu galwadau ac amseroedd ymateb, gan arwain at y posibilrwydd bod amseroedd ymateb wedi cael eu hystumio; a
- materion diogelwch cleifion, yn gysylltiedig â chynnal diffibrilwyr, argaeledd cyfarpar hanfodol a'r defnydd o lyw lloeren mewn cerbydau argyfwng.

6. Cymerwyd y camau canlynol er mwyn asesu a oedd hi'n ymddangos bod sylwedd i unrhyw un o'r materion a godwyd, a fyddai'n golygu bod angen cynnal ymchwiliad manwl iddynt:
   - Cynhaliwyd cyfweliadau ag unigolion allweddol o fewn yr Ymddiriedolaeth a chanddynt wybodaeth berthnasol am y meysydd a oedd yn destun pryder.
   - Cynhaliwyd asesiad o'r amgylchedd rheolaeth ym mhob maes a oedd yn destun pryder ar sail tystiolaeth o gyfweliadau ac adolygiad o ddogfennau system ac mewn rhai achosion drwy arsylwi systemau ar waith. Lle bu modd, ceisiwyd dibynnu ar sicrwydd a gafwyd o waith adolygu a gynhaliwyd eisoes, gan gynnwys gwaith a wnaed gan KPMG, Archwilio Mewnol ac adolygwyr annibynnol eraill.

## Y Casgliad Cyffredinol

7. Canfuom nad oedd unrhyw sylwedd i'r rhan fwyaf o'r pryderon. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg pam bod aelodau o staff wedi codi'r pryderon hyn. Nid oes gennym felly unrhyw reswm i amau na chafodd y materion dan sylw eu codi'n gwbl ddidwyll.
8. O ran y pryderon mwyaf difrifol a godwyd, sef y posibilrwydd bod amseroedd ymateb yn cael eu hystumio (pryder 15), a phryderon ynghylch diogelwch cleifion (pryderon 16 i 18), rydym wedi cael sicrwydd digonol i gasglu nad oes unrhyw sylwedd i'r pryderon hyn.
9. Mewn ambell achos, ni fu modd cael sicrwydd digonol oddi wrth Reolwyr yr Ymddiriedolaeth nad oedd unrhyw sail i'r pryderon. Rydym felly wedi argymell y dylai'r Ymddiriedolaeth gyflawni gwaith adolygu mewnol pellach mewn rhai meysydd.
10. Roedd hi'n amlwg o'r gwaith y buom yn ei gyflawni fod amryw o'r pryderon wedi codi gan nad oedd yr aelodau hynny o staff a'u cododd yn ymwybodol o newidiadau mewn polisi gweithredol, neu nad oedd ganddynt ddealltwriaeth lawn o systemau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth. Er bod Rheolwyr yr Ymddiriedolaeth wedi dweud wrthym iddynt wneud ymdrech sylweddol i wella'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu â'r staff, mae angen i'r Ymddiriedolaeth barhau i ystyried effeithiolrwydd ei strategaeth a'i mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu â'i staff.
11. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn rhagweithiol iawn o ran annog aelodau o staff i godi pryderon yn fewnol. Mae hi felly'n siom fod rhai aelodau o staff yn dal i deimlo'r angen i godi eu pryderon yn allanol. Rydym yn cydnabod y gall gymryd amser hir i newid safbwyntiau diwylliannol, felly anogwn yr Ymddiriedolaeth i barhau i hyrwyddo ysbryd agored ac i atgoffa'r staff o'r mecanweithiau y gallant eu defnyddio i godi pryderon.
12. Ar sail y canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn, nid ydym yn cynnig y dylid cynnal unrhyw ymchwiliadau manwl pellach i'r pryderon a godwyd. Fodd bynnag, rydym wedi gofyn i'r Ymddiriedolaeth ystyried ac ymateb i nifer o argymhellion. Nodir yr argymhellion isod, gydag ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth yn cael eu hamlinellu yn Atodiad 1.

# Argymhellion

| | |
|---|---|
| A1 | Argymhellwn y dylai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal adolygiad i gadarnhau mai enghraifft unigol oedd y taliad a wnaed ddwywaith o fewn y contract rheoli fflyd, a bod rheolaethau'r Ymddiriedolaeth i atal a chanfod taliadau dyblyg yn fwy cyffredinol yn gadarn ac yn gweithredu'n effeithiol. Yn rhan o'r gwaith hwn, dylid cynnal asesiad o'r trefniadau sydd ar waith o fewn yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau bod anfonebau'n cael eu talu'n brydlon, gan osgoi drwy hynny yr angen i'r cwmni gyflwyno ail anfoneb (gweler pryder 2). |
| A2 | Argymhellwn y dylai Bwrdd Caffael yr Ymddiriedolaeth adolygu lleoliad yr ambiwlansys bws Mercedes a Landrover Discovery, a'r defnydd ohonynt, er mwyn canfod a oes angen y cerbydau hyn o hyd, ac a wneir y defnydd gorau posib ohonynt (gweler pryderon 3 a 4). |
| A3 | Argymhellwn y dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei strategaeth rheoli cerbydau er mwyn sicrhau bod y strategaeth honno'n gadarn ac wedi'i halinio â strategaeth gyffredinol yr Ymddiriedolaeth a'i gofynion gweithredol yn y dyfodol. (gweler pryder 6). |
| A4 | Argymhellwn y dylai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal adolygiad er mwyn profi'r trefniadau sydd ar waith i waredu cyfarpar sydd dros ben, cyfarpar sydd wedi cyrraedd diwedd ei oes ddefnyddiol a chyfarpar diffygiol. Dylid cynnal profion pellach er mwyn cael sicrwydd bod trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer gwaredu cyfarpar wedi'u halinio ag adroddiadau am brinder cyfarpar yn rhannau eraill o'r sefydliad (gweler pryder 7). |
| A5 | Mae angen i'r Ymddiriedolaeth barhau i ystyried effeithiolrwydd ei strategaeth a'i mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu â'r staff er mwyn sicrhau bod polisi gweithredol a gwybodaeth am systemau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth yn cael eu lledaenu'n effeithiol ymhlith y staff (pryderon amrywiol, ee pryderon 8, 9 ac 14). |
| A6 | Argymhellwn y dylai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygu dibynadwyedd a chadernid y rheolaethau dros fynediad at gyflenwadau'r GIG, a'r defnydd ohonynt, gan griwiau ambiwlans y GIG a chriwiau ambiwlans preifat (gweler pryder 11). |
| A7 | Argymhellwn y dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i atgoffa'r staff ynghylch y mecanweithiau y gellir eu defnyddio i godi pryderon yn fewnol (gweler pryder 12). |
| A8 | Argymhellwn y dylai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal adolygiad i brofi effeithiolrwydd trefniadau goramser yr Ymddiriedolaeth (gweler pryder 13). |
| A9 | Argymhellwn y dylai'r Ymddiriedolaeth gyflwyno nodyn atgoffa clir i'r staff ynghylch pwysigrwydd adrodd am gyfarpar diffygiol, a bod trywydd archwilio clir yn cael ei gynnal er mwyn dangos bod diffygion a adroddir yn cael eu hasesu a'u hunioni'n brydlon (gweler pryderon 15 ac 16). |

# Canfyddiadau manwl

**13.** Nodir isod yr holl bryderon penodol a archwiliwyd, ymateb staff yr Ymddiriedolaeth i'r pryderon hynny, a'n hasesiad archwilio yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r mater. Rydym wedi rhannu'r pryderon i'r is-feysydd a ganlyn:

- rheoli'r fflyd, caffael a gwaredu cerbydau a llogi cerbydau;
- caffael, gwaredu a defnyddio cyfarpar;
- defnydd o wasanaethau ambiwlans preifat a'r rheolaeth a'r gyflenwadau'r GIG;
- trefniadau goramser;
- dosbarthu galwadau ac amseroedd ymateb; a
- phryderon ynghylch diogelwch cleifion.

## Rheoli'r fflyd, caffael a gwaredu cerbydau a llogi cerbydau

## Pryder 1 - Y Contract Teiars

**14.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth gontract gyda chwmni teiars cenedlaethol ar gyfer cyflenwi teiars (y contractwr). Pan geir twll yn nheiar cerbyd, neu os bydd teiar wedi'i ddifrodi, bydd y cwmni'n tynnu holl deiars y cerbyd ac yn gosod rhai newydd yn eu lle yn hytrach na thynnu'r teiar sydd wedi'i ddifrodi'n unig. Nid yw hyn yn cynrychioli gwerth am arian.

### Ymateb y Rheolwyr

**15.** Mae'n debygol bod teiars newydd wedi cael eu gosod yn lle'r holl deiars os oedd un o'r teiars yn ddiffygiol/â thwll ynddo. Y rheswm am hyn yw strategaeth yr Ymddiriedolaeth o newid y fflyd gyfan i deiars "tywydd oer". Caiff unrhyw deiars nad ydynt ond wedi'u defnyddio'n rhannol eu dychwelyd i'r stoc a'u defnyddio ar gerbydau eraill yn y fflyd. Ceir esboniad llawnach isod.

**16.** Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn newid teiars y fflyd gyfan i deiars "tywydd oer". Yn unol â chyngor y gwneuthurwr teiars, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cymysgu teiars tywydd oer â mathau eraill o deiars. Pwrpas hynny yw sicrhau cysondeb yn nheiars holl gerbydau'r fflyd a lleihau cyfanswm y gwariant ar deiars. Os oes angen cymorth ar gyfer cerbyd y tu allan i oriau arferol, darperir y gwasanaeth cymorth ochr ffordd gan y contractwr. Bydd y contractwr yn mynd â set lawn o deiars at y cerbyd. Os nad yw'r set o deiars sydd gan y contractwr ar y cerbyd achub yn cyd-fynd â'r rhai ar y cerbyd, bydd set lawn yn cael ei gosod er mwyn i'r cerbyd fod yn ddiogel i deithio ar y ffordd, a bodloni'r argymhelliad o beidio â chymysgu mathau gwahanol o deiars. Caiff unrhyw deiars a ddefnyddiwyd yn rhannol eu hailgylchu i'r stoc a gedwir gan y contractwr ar ran yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod ar gerbyd arall ar y cyfle cyntaf. Mae'r contractwr yn rhoi adroddiad i'r Ymddiriedolaeth ar yr holl waith a gwblhawyd, gan nodi unrhyw deiars da a gafodd eu tynnu ac a ddefnyddiwyd.

**17.** Cyn gynted ag y bydd teiars tywydd oer ar yr holl fflyd, bydd y tebygolrwydd o orfod gosod teiars newydd yn lle teiars "da" yn llawer llai. Ym mlwyddyn ariannol 2014/15 roedd cost teiars newydd £30,000 yn is na chyfartaledd y blynyddoedd cynt yn sgil newid i deiars tywydd oer.

### Asesiad archwilio

**18.** Rydym wedi gweld enghraifft o'r Daflen Waith Ffitio Symudol a gyflwynir gan y contractwr, sy'n dangos yn glir pa deiars a dynnwyd. Rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau o anfonebau oddi wrth y contractwr sy'n nodi'n glir y gwaith a gyflawnwyd fesul cerbyd unigol, a dadansoddiad o'r costau'n gysylltiedig â phob galwad allan. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu gan adran y Fflyd, a'u dadansoddi; codir tâl amdanynt gan wahanol ganolfannau costau, ac fe'u hawdurdodir i'w talu.

**19.** Rydym yn deall pam bod rhai aelodau o staff, nad oeddent, o bosib, yn deall y rhesymau dros dynnu teiars da, yn pryderu ynghylch gwerth am arian. Fodd bynnag, rydym yn fodlon ag ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r pryder hwn, a bod y rheolaethau angenrheidiol ar waith yn gysylltiedig â'r cynllun gosod teiars newydd. Nid ydym felly'n ystyried bod angen unrhyw gamau archwilio pellach.

## Pryder 2 - Contract Cynnal y Fflyd

**20.** Mae gan ranbarth De Ddwyrain Cymru o fewn yr Ymddiriedolaeth gontract â chwmni ar gyfer cynnal y fflyd. Mae'r cwmni wedi gyrru anfonebau dyblyg i'r Ymddiriedolaeth, ac anfonebau am gydrannau nas gosodwyd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o hyn ond heb weithredu mewn unrhyw ffordd.

### Ymateb y Rheolwyr

**21.** Mae'r cwmni dan sylw yn anfon copïau o'i anfonebau'n rheolaidd i'r Ymddiriedolaeth, os nad yw'r rhain wedi'u talu o fewn y cyfnod talu arferol. Mae'r anfonebau copi wedi'u marcio'n glir fel copïau dyblyg, ac ni chânt eu mewnbynnu i system yr Ymddiriedolaeth os yw'r anfoneb wreiddiol wedi'i harchebu. Nododd Adran Fflyd yr Ymddiriedolaeth un achlysur lle'r oedd y cwmni wedi anfonebu'r Ymddiriedolaeth ddwywaith am yr un gwaith ar ddamwain, a lle'r oedd yr Ymddiriedolaeth wedi talu'r anfoneb ddwywaith. Ystyriai'r Rheolwyr mai camgymeriad dilys ar ran y contractwr oedd hyn, ac mae'r swm a ordalwyd wedi'i dalu'n ôl i'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu prynu system fflyd newydd yn 2015/16 fydd yn awtomeiddio rhai o'r gwiriadau a gynhelir â llaw ar hyn o bryd, ee, paru rhifau tasgau ag anfonebau. Rhagwelir y bydd hyn yn gwella effeithlonrwydd. Ceir esboniad llawnach isod.

**22.** Mae dau fater yn berthnasol i'r pryder a godwyd:

- Mae'r cwmni'n gyrru anfonebau dyblyg yn rheolaidd os nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi talu'r anfoneb wreiddiol o fewn y cyfnod talu arferol. Caiff y rhain eu marcio'n glir fel copïau dyblyg, ac ni chânt eu mewnbynnu i system yr Ymddiriedolaeth os yw'r anfoneb wreiddiol wedi'i harchebu.
- Yn ddamweiniol, talodd yr Ymddiriedolaeth anfoneb ddwywaith ar gyfer yr un rhif tasg, gan fod dau unigolyn gwahanol o fewn y cwmni wedi codi anfonebau.

**23.** Roedd y cwmni'n brin o adnoddau o fewn ei dîm cyllid, ac ni ddilynodd ei brosesau arferol o baru anfonebau â rhifau tasg. O ganlyniad i hyn, anfonodd y cwmni anfoneb wallus i'r Ymddiriedolaeth. Canfuwyd y broblem gan Adran Fflyd yr Ymddiriedolaeth wrth baru rhifau tasg ag anfonebau, ond erbyn hynny roedd yr anfoneb wedi'i thalu ddwywaith. Hysbyswyd y cwmni, ac ad-dalodd y cwmni yr ail daliad. Mae'r Rheolwyr o'r farn mai enghraifft unigol o gamgymeriad dynol o fewn y cwmni oedd yr anfoneb wallus, yn hytrach nag unrhyw ymgais bwriadol i dderbyn ail daliad drwy dwyll.

**24.** Ar hyn o bryd, system llaw a ddefnyddir i baru archebion tasg ag anfonebau o fewn yr Ymddiriedolaeth, felly mae gwiriadau â llaw yn parhau i gael eu cynnal. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu prynu system newydd yn ystod 2015/16 er mwyn gwella'r trefniadau llywodraethu yn y maes hwn a sicrhau na chaiff anfonebau am yr un rhif tasg eu talu ddwywaith. Gan fod yn rhaid paru anfonebau â rhif tasg, a gaiff ei awdurdodi gan yr Ymddiriedolaeth ar ôl cwblhau'r dasg honno, mae rheolaethau ar waith i sicrhau mai dim ond unwaith y telir am waith sydd wedi'i gyflawni.

### Asesiad archwilio

**25.** Sylwn fod rheolaethau wedi cael eu sefydlu o fewn Adran Fflyd yr Ymddiriedolaeth er mwyn canfod ac atal taliadau dyblyg. Fodd bynnag, o ystyried y digwyddiad a nodwyd uchod, argymhellwn y dylai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal adolygiad i gadarnhau mai enghraifft unigol yw'r taliad dyblyg, a bod y rheolaethau i atal a chanfod taliadau dyblyg yn gadarn ac yn gweithredu'n effeithiol. Yn rhan or gwaith hwn, dylid cynnal asesiad o'r trefniadau sydd ar waith o fewn yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau bod anfonebau'n cael eu talu'n brydlon, gan osgoi'r angen i'r cwmni gyflwyno anfonebau dyblyg.

## Pryder 3 - Prynu a defnyddio Ambiwlansys Landrover Discovery

**26.** Prynodd yr Ymddiriedolaeth 12 o ambiwlansys Landrover Discovery tua 2010/11, na ddefnyddiwyd mohonynt i ddechrau, gan nad oedd cyllideb ar gael i'w gorffen/i osod cyfarpar arnynt (stribedi, radios, goleuadau ac ati). Pan osodwyd cyfarpar yn y cerbydau hyn o'r diwedd, dim ond am tua naw mis y cawsant eu defnyddio oherwydd pryder ynghylch costau rhedeg. Maent bellach wedi'u parcio, a heb fod yn cael eu defnyddio.

## Ymateb y Rheolwyr

**27.** Gosodwyd cyfarpar/gorffennwyd y cerbydau yn y flwyddyn ariannol ganlynol ar ôl eu prynu. Nid yw hyn yn anghyffredin oherwydd y cyfyngiadau ar gyfalaf yr Ymddiriedolaeth. Yn dilyn adolygiad o gostau cynnal a thanwydd ar ddiwedd 2013, cafodd y cerbydau eu symud o gael eu defnyddio'n arferol bob dydd i gael eu lleoli mewn mannau strategol er gwytnwch, fel bo'r angen. Cafodd y cerbydau eu defnyddio. Ym mlwyddyn galendr 2014, 33,073 oedd cyfanswm milltiroedd y 12 o gerbydau. Caiff cofnod misol o'r defnydd o gerbydau ei adolygu gan y Bwrdd Caffael Cerbydau yn rheolaidd, yn sail ar gyfer strategaeth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer cerbydau newydd. Ceir esboniad llawnach isod:

**28.** Nid yw'n anarferol prynu asedau mewn un flwyddyn ariannol a llenwi'r asedau hynny â chyfarpar y flwyddyn ganlynol, o ganlyniad i'r cyfyngiadau ar wariant cyfalaf o fewn yr Ymddiriedolaeth. Roedd y cerbydau Discovery ar gael i'w defnyddio mewn tywydd garw, a hefyd ar gyfer gweithrediadau o ddydd i ddydd. Dywed y Rheolwyr y cafodd y cerbydau eu defnyddio'n ddyddiol ar ôl gosod cyfarpar ynddynt yn 2011/12. Tua diwedd 2013, cynhaliwyd adolygiad o waith cynnal cerbydau a chostau tanwydd. Yn dilyn yr adolygiad, penderfynwyd na fyddai'r cerbydau'n cael eu defnyddio ar gyfer defnydd arferol bob dydd o hynny allan, ac y byddent yn cael eu cadw mewn lleoliadau strategol, er gwytnwch, fel bo'r angen.

**29.** Cedwir y cerbydau yn Aberystwyth, Aberhonddu, y Drenewydd (ar gyfer Gorsaf Awyr y Trallwng os oes angen), Doc Penfro, Corwen, Abermo, Llanrwst, Gorsaf Awyr Caernarfon, Bargod, Y Barri, Cefn Coed a Thredegar, ac fe'u defnyddir ar gyfer digwyddiadau oddi ar y ffordd ac mewn tywydd drwg, a hefyd fel cerbydau wrth gefn. Mae adroddiad diweddar gan yr Adran Fflyd yn dangos bod pob un o'r cerbydau wedi teithio mwy na 54,000 o filltiroedd. Yn ystod y flwyddyn o 1 Ionawr 2014 i 31 Rhagfyr 2014, cyfanswm milltiroedd y 12 cerbyd oedd 33,073. Bydd y Bwrdd Caffael Cerbydau'n adolygu cofnod misol o'r defnydd ohonynt o ran milltiroedd yn rheolaidd, yn rhan o'u proses o benderfynu pryd i gael gwared â cherbydau a chael rhai newydd yn eu lle.

## Asesiad archwilio

**30.** Rydym yn fodlon bod y cerbydau yn cael eu defnyddio, sy'n groes i'r pryder a fynegwyd wrth yr Archwilydd Cyffredinol. Serch hynny, mae lefel y defnydd o'r cerbydau yn isel. Rydym felly'n argymell y dylai Bwrdd Caffael yr Ymddiriedolaeth adolygu'r defnydd a wneir o bob cerbyd er mwyn ystyried:

- a oes angen cadw pob un o'r 12 o gerbydau ai peidio;
- a yw'r cerbydau wedi'u lleoli mewn mannau priodol; ac
- a oes ffordd well o fodloni'r anghenion y mae'r cerbydau hyn yn eu bodloni ar hyn o bryd, ee defnyddio cerbydau llog.

**31.** Yn sgil adolygu gwaith cynnal a chostau tanwydd cerbydau yn 2013, sylwn fod y defnydd o ambiwlansys Landrover Discovery wedi newid. Er ein bod yn cytuno bod costau rhedeg cerbydau'n ystyriaeth allweddol wrth benderfynu ynghylch y defnydd o gerbydau, byddem yn disgwyl i hynny hefyd fod yn ystyriaeth allweddol wrth brynu'r cerbydau yn y lle cyntaf. Rydym yn cydnabod bod blynyddoedd wedi pasio ers prynu'r cerbydau hyn, a bod yr Ymddiriedolaeth ers hynny wedi gwneud cynnydd o ran datblygu strategaeth fwy cynhwysfawr a chadarn ar gyfer caffael, rheoli a defnyddio cerbydau.

## Pryder 4 - Prynu a defnyddio bysus Mercedes i'w defnyddio gan y Gwasanaethau Gofal Cleifion.

**32.** Tua 2010, prynodd yr Ymddiriedolaeth sawl bws Mercedes i'w defnyddio gan y Gwasanaethau Gofal Cleifion (GGC). Nid yw'r bysus hyn wedi cael eu defnyddio gan eu bod yn anaddas ar gyfer llawer o'r strydoedd yn y rhanbarth.

### Ymateb y Rheolwyr

**33.** Prynwyd y bysus Mercedes yn 2007/08, ac maent yn parhau i gael eu defnyddio'n gyson bob dydd. Nid yw'r cerbydau'n fwy nag ambiwlans argyfwng. Mae pob un o'r pump o gerbydau wedi teithio mwy nag 85,000 o filltiroedd. Wrth roi prosesau a rotas newydd ar waith ar gyfer trosglwyddo cleifion nad ydynt achosion brys, mae'r cerbydau'n cael eu symud i leoliadau eraill er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf ohonynt. Ar hyn o bryd mae'r cerbydau wedi'u lleoli yng Nghasnewydd, Bargod, Bryncethin, Port Talbot a Chefn Coed.

### Asesiad archwilio

**34.** O ddadansoddi milltiroedd y cerbydau hyn fesul blwyddyn, gwelir bod y defnydd ohonynt yn amrywio i raddau sylweddol. Yn 2014/15, roedd y milltiroedd blynyddol a gofnodwyd yn amrywio rhwng 851 o filltiroedd ac 16,913 o filltiroedd. At hynny, mae'r defnydd o'r cerbydau wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gostyngodd cyfanswm milltiroedd y cerbydau hyn o 87,954 yn 2011/12 i 41,834 yn 2014/15. Argymhellwn y dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei defnydd parhaus o'r cerbydau er mwyn sicrhau bod angen pob un ohonynt, a sicrhau'r defnydd gorau ohonynt.

## Pryder 5 - Llogi cerbydau Freelander Land Rover 4x4

**35.** Ddwy flynedd yn ôl, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth logi amryw o gerbydau Freelander Landrover 4x4 i'w defnyddio gan y GGC mewn tywydd garw. Ni chafodd y cerbydau hyn eu defnyddio o gwbl ar gyfer y cyfnod llogi cyfan o ddau fis, gan nad oedd yr un aelod o staff wedi'u hyfforddi ar sut i'w defnyddio.

### Ymateb y Rheolwyr

**36.** Cafodd y cerbydau Freelander eu llogi'n benodol ar gyfer cleifion a chanddynt anghenion yn gysylltiedig â'r arennau, a thalwyd amdanynt gydag arian o'r Rhwydwaith Arennau. Roedd yr arian hwn "wedi'i neilltuo" ac nid oedd modd ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Dywedodd y Rheolwyr na chafodd y cerbydau eu defnyddio i drosglwyddo cleifion yr arennau gan na chafwyd unrhyw dywydd garw. Nid diffyg hyfforddiant oedd y rheswm am hyn (doedd dim angen i yrwyr dderbyn unrhyw hyfforddiant ychwanegol). Dilynwyd y broses gaffael safonol, ac fe gafwyd tri dyfynbris ar gyfer llogi'r cerbydau. Disgwylir mai £17,996 fydd y gost derfynol o logi'r cerbydau.

## Asesiad archwilio

**37.** Rydym yn cydnabod bod yr Ymddiriedolaeth wedi llogi'r cerbydau hyn yn unol â gofynion Rhwydwaith yr Arennau. Er bod y trefniant yn codi materion ehangach yn gysylltiedig â gwerth am arian o fewn y GIG, derbyniwn fod yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu'n unol â'r ffiniau y mae'n ofynnol iddo weithredu oddi mewn iddynt.

# Pryder 6 - Gwaredu ambiwlansys yn ocsiynau Merthyr a'u hailgomisiynu wedi hynny.

**38.** Yn 2014, trefnodd yr Ymddiriedolaeth i gael gwared â 40 o ambiwlansys yn ocsiwn Merthyr. I baratoi ar gyfer hyn, tynnwyd y cyfarpar o'r holl gerbydau a chafwyd gwared â 22 o'r ambiwlansys. Yn dilyn trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid ac adnoddau, penderfynwyd y dylid cadw'r cerbydau i'w defnyddio gan yr Ymddiriedolaeth. Aeth yr Ymddiriedolaeth felly ati i gael y cerbydau nad oeddent wedi'u gwerthu yn ôl oddi wrth y cwmni ocsiwn. Costiodd £40,000 i adfer y cerbydau a gafwyd yn ôl fel bo modd eu defnyddio eto.

## Ymateb y Rheolwyr

**39.** Mae'r Rheolwyr yn derbyn y dylent fod wedi sylwi'n gynharach ar yr angen i gadw'r ambiwlansys yn weithredol er mwyn trosglwyddo cleifion. Cododd y broblem yn sgil newid rotas i gyd-fynd â chyfnodau lle ceir mwy o alw am Wasanaethau Gofal Brys (GGB) Mae disgwyl i gerbydau GGB ymateb i alwadau llai critigol, trosglwyddo rhwng ysbytai a chludo cleifion yr adroddir amdanynt gan feddygon teulu i'r ysbyty. Cyn gynted ag y sylweddolwyd y gellid bod angen yr ambiwlansys, tynnwyd y gwerthiant yn ôl, ond erbyn hynny roedd 22 o'r ambiwlansys eisoes wedi'u gwerthu. Roedd angen ailgomisiynu cyfarpar yr ambiwlansys, gan fod y cyfarpar bob amser yn cael ei ailddefnyddio mewn cerbydau newydd neu gerbydau ychwanegol.

**40.** Mewn cyfarfod o'r Bwrdd Caffael cerbydau a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2014, cofnodwyd "With regard to our current EMS disposal proposal, we need to hold these vehicles for Urgent Care Service ("UCS") rather than disposing of them". Y rheswm am hynny oedd nad oedd cyllideb cyfalaf ychwanegol wedi cael ei chytuno â Llywodraeth Cymru ar y pryd. Yng nghyfarfod yr un bwrdd ar 8 Ebrill 2014, adroddwyd bod yr Ymddiriedolaeth wedi rhoi terfyn ar gynlluniau i waredu'r cerbydau. Roedd angen i hynny ddigwydd er mwyn i'r Ymddiriedolaeth gael y dewis i ailgomisiynu'r cerbydau. Ym mis Chwefror 2015, caadarnhawyd yn y Pwyllgor Cyflawni Ansawdd fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer gwariant cyfalaf, ac y byddai 17 o gerbydau EMS newydd yn cael eu prynu, hanner ohonynt yn 2014/15 a'r hanner arall yn 2015/16. O ganlyniad i hyn, ni chafodd yr ambiwlansys y cyfeirir atynt uchod eu hailgomisiynu, ac mae'r Ymddiriedolaeth bellach wedi cael gwared â phob un ohonynt.

### Asesiad archwilio

**41.** Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth eglurhad rhesymegol ar gyfer y penderfyniad i dynnu'r cerbydau dan sylw yn ôl o'r ocsiwn, ac i osod cyfarpar newydd ynddynt fel cerbydau GGB. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod y dylid bod wedi sylwi ar yr angen i gadw'r cerbydau hyn yn gynharach. Argymhellwn felly y dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei strategaeth rheoli cerbydau er mwyn sicrhau bod y strategaeth honno'n gadarn ac yn gyson â strategaeth gyffredinol yr Ymddiriedolaeth a'i gofynion o ran gweithredu yn y dyfodol.

## Caffael, gwaredu a defnyddio cyfarpar

## Pryder 7 - Gwaredu cyfarpar drwy dŷ ocsiwn

**42.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn cael gwared â chyfarpar y gellir ei ddefnyddio fel cadeiriau cludo a stretseri orthopaedig drwy dŷ ocsiwn, er bod y cyfarpar hwnnw'n brin o fewn yr Ymddiriedolaeth.

### Ymateb y Rheolwyr

**43.** Ystyrir gwaredu cyfarpar clinigol o fewn yr Ymddiriedolaeth ar sail y meini prawf canlynol:

- bod y cyfarpar yn ddiffygiol ac nad yw'n gwneud synnwyr ariannol i'w drwsio, o ystyried oed y cyfarpar a'r gwerth llyfr net os yw'n briodol;
- bod y cyfarpar wedi'i ddisodli gan gynnyrch gwell o safbwynt clinigol, a bod ei oes ddefnyddiol bellach wedi dod i ben; ac
- yn dibynnu ar y cyfarpar, ar ganllawiau'r gwneuthurwr ynghylch hyd oes y cyfarpar, argymhellion MHRA ynghylch prynu cyfarpar newydd neu raglenni'r Ymddiriedolaeth ar gyfer prynu cyfarpar newydd (ee, y Rhaglen Prynu Cerbydau Newydd).

**44.** Caiff yr holl gyfarpar sydd wedi'i torri (nad yw'n gwneud synnwyr ariannol i'w drwsio), neu sydd wedi cyrraedd diwedd ei oes ddefnyddiol, ei werthu drwy ocsiynwyr a gymeradwywyd gan GIG Cymru. Caiff yr eitemau sy'n cael eu gwaredu eu cofnodi, ynghyd â manylion eu cyflwr, a'u tynnu oddi ar gofrestr Asedau'r Ymddiriedolaeth wedi hynny. Ers 2013, mae £190k o incwm yr Ymddiriedolaeth wedi cael ei godi drwy'r dull hwn. Yn 2015, bwriedir cael gwared â chyfarpar sydd wedi cyrraedd diwedd ei oes ddefnyddiol, ac iddo werth hyd at £120k drwy'r dull hwn.

**45.** Rheolir y broses hon gan y Rheolwr Cyfarpar a Chaffael Clinigol (sydd yn atebol i'r Pennaeth Gweithrediadau Clinigol). Mae'r Rheolwr yn cysylltu â chydweithwyr rheoli fflyd a rheoli gweithredol er mwyn canfod cyfarpar perthnasol ar lefel yr orsaf ac ar lefel cerbydau.

**46.** Ymhlith yr enghreifftiau o gyfarpar a waredwyd, ceir diffibrilwyr llaw sydd bellach wedi cyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol, ac sy'n cael eu disodli gan ddiffibrilwyr/monitorau newydd sy'n defnyddio technoleg o'r radd flaenaf, a stretsiers llithro metel sy'n cael eu disodli gan stretsiers llithro plastig (sy'n gwella'r trefniadau ar gyfer symud cleifion ac yn ei gwneud hi'n bosibl i dynnu llun pelydr x neu sgan CT heb orfod eu symud oddi ar y stretsier).

**47.** Cedwir cofnod llawn o'r cyfarpar sydd wedi cael ei gasglu, canlyniad y gwerthiant a gwybodaeth am ddifrodi unrhyw gyfarpar nad yw mewn cyflwr digon da i'w werthu.

### Asesiad archwilio

**48.** Er bod Rheolwyr yr Ymddiriedolaeth wedi rhoi sicrwydd bod ganddynt drefniadau gwaredu cadarn ar waith, ystyriwn y byddai'n fuddiol i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal profion annibynnol pellach o'r trefniadau hyn. Yn rhan o'r profion pellach, dylid ceisio cael sicrwydd bod trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer gwaredu cyfarpar wedi'u halinio'n ddigonol ag adroddiadau am brinder cyfarpar yn rhannau eraill o'r sefydliad.

## Pryder 8 - Caffael diffibrilwyr cynghorol a'r defnydd ohonynt

**49.** Mae gan bob cerbyd argyfwng, cerbyd ymateb cyflym, ac ambiwlans i gleifion allanol ddiffibriliwr allanol awtomatig (AED). Polisi'r Ymddiriedolaeth yw y dylai criwiau ambiwlans ddefnyddio AEDs llaw, ac na cheir defnyddio diffibrilwyr cynghorol. Tua 6 i 7 mis yn ôl, prynodd yr Ymddiriedolaeth tua 200 o ddiffibrilwyr cynghorol, er na ellir defnyddio'r rhain o dan bolisi'r Ymddiriedolaeth.

### Ymateb y Rheolwyr

**50.** Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth bolisi i beidio â chaniatáu defnydd o ddiffibrilwyr cynghorol. Mae polisi'r Ymddiriedolaeth yn gyson â pholisi'r DU, hy, os ceir ataliad ar y galon, mae'n rhaid i'r parafeddyg roi sioc drydanol i'r claf. Nid oes unrhyw ganllawiau ynghylch y dull o roi'r sioc hon. Mae ambiwlansys a cheir ymateb wedi cario diffibriliwr llaw a monitor cardiaiddd cyfunol, sy'n costio bron £19k yr un, erioed. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r Ymddiriedolaeth wedi prynu AEDs ychwanegol sydd yn ddyfais llawer llai y gellir ei dal yn eich llaw, tebyg i'r math a welir mewn canolfannau siopa a meysydd awyr. Dyma'r rhesymau dros gario'r ddau fath o ddiffibriliwr:

- er mwyn cael dyfais wrth gefn os bydd diffibriliwr yn methu (er bod hynny'n annhebygol);
- er mwyn gallu trin dau glaf sy'n cael ataliad ar y galon; ac
- er mwyn gallu cludo diffibriliwr i fannau llai hygyrch, neu lle ceir dŵr, neu lle nad yw'r angen am ddiffibriliwr yn amlwg.

**51.** Mae'r Ymddiriedolaeth ar ganol cael gwared â'r diffibrilwyr llaw a'r monitors cardiaidd cyfunol. Mae'r staff ambiwlans yn derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r diffibrilwyr newydd fydd yn cymryd eu lle, yn rhan o'u cwrs diweddaru blynyddol a gynhelir dros ddau ddiwrnod,  a hefyd drwy dderbyn hyfforddiant gan yr arweinwyr tîm. Y parafeddyg sydd i asesu pa ddiffibriliwr sydd orau i'w ddefnyddio. Mater o ddewis personol/neu asesiad o'r sefyllfa yw hyn, yn hytrach na bod angen unrhyw reolau neu ganllawiau.

### Asesiad archwilio

**52.** Mae'r Rheolwyr wedi rhoi esboniad rhesymegol ynghylch y penderfyniad i brynu diffibrilwyr cynghorol, ac wedi cyfleu polisi'r Ymddiriedolaeth yn glir ynghylch y defnydd o ddiffibrilwyr. Gan nad oedd aelodau o staff yr Ymddiriedolaeth a gododd bryderon yn ymwybodol o bolisi'r Ymddiriedolaeth ynghylch y defnydd o ddiffibrilwyr, byddai'n fuddiol i'r Ymddiriedolaeth godi ymwybyddiaeth o'i bolisi a sicrhau bod polisi'r Ymddiriedolaeth y cael ei gyfleu wrth barafeddygon mewn digwyddiadau hyfforddi.

## Pryder 9 - Prynu peiriannau anadlu tafladwy

**53.** Yn ddiweddar, prynodd yr Ymddiriedolaeth lawer o beiriannau anadlu plastig am oddeutu £1,000 yr un, i ddisodli'r peiriannau anadlu mecanyddol presennol a ddefnyddir mewn ambiwlansys. Dywedwyd wrthym fod y peiriannau anadlu y mae'r Ymddiriedolaeth yn cael gwared ohonynt o ansawdd gwell na'r rhai newydd, felly does dim angen eu cyfnewid.

### Ymateb y Rheolwyr

**54.** Ar bob ambiwlans argyfwng ceir peiriant anadlu mecanyddol a ddefnyddir i anadlu ar ran y claf os nad yw'n gallu anadlu drosto ei hun. Mae'r peiriannau'n drwm ac wedi'u dylunio i'w defnyddio yn yr ambiwlans wrth drosglwyddo claf i'r ysbyty. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno peiriannau anadlu tafladwy am gost isel i'w defnyddio pan na fydd modd cludo'r prif beiriannau anadlu at y claf, ee, os ydynt i fyny'r grisiau neu mewn man anhygyrch, neu'n bell oddi wrth yr ambiwlans. Cyn gynted ag y bydd claf yn cyrraedd yr ambiwlans, gellir ei drosglwyddo i'r prif beiriant anadlu i'w drosglwyddo i'r ysbyty. Nid yw'r peiriannau anadlu presennol yn cael eu tynnu allan o gerbydau'r fflyd. Mae'r peiriant anadlu tafladwy yn ychwanegol at y cyfarpar a gludir.

### Asesiad archwilio

**55.** Mae'r Rheolwyr wedi rhoi esboniad rhesymegol dros brynu peiriannau anadlu tafladwy. Mae'n destun pryder nad oedd aelodau o staff yr Ymddiriedolaeth a gododd y pryderon yn ymwybodol o'r rheswm dros brynu'r peiriannau anadlu, pryd i'w defnyddio, ac nad eu pwrpas oedd disodli'r peiriannau anadlu mecanyddol a oedd eisoes wedi'u gosod yn y cerbydau. Mae'n bwysig felly i'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cyfleu'n gwbl glir wrth barafeddygon y rhesymau dros brynu peiriannau anadlu tafladwy, a'r defnydd a fwriedir ohonynt.

## Defnydd o Wasanaethau Ambiwlans Preifat a rheolaeth ar gyflenwadau'r GIG

## Pryder 10 - Y defnydd o ddarparwyr ambiwlans preifat

**56.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn defnyddio amryw o ddarparwyr ambiwlans preifat i ddarparu cerbydau a chriwiau pan na all yr Ymddiriedolaeth ateb y galw drwy ddefnyddio ei chriwiau arferol. Dywedwyd wrthym ei bod hi'n arfer cyffredin i'r darparwyr preifat gyflenwi a chael tâl am ddau gerbyd a dau griw i lenwi sifftiau na fyddai'r Ymddiriedolaeth ond yn defnyddio un ambiwlans a chriw i'w llenwi.

## Ymateb y Rheolwyr

**57.** Caiff prinder ambiwlansys argyfwng gweithredol ei werthuso bob dydd Llun ar gyfer y penwythnos canlynol. Gofynnir i aelodau o staff wneud cais am sifftiau goramser, ac yn rhan o werthusiad dydd Llun, ystyrir yr adnoddau sydd ar gael. Ar ôl y cyfarfod hwn, cynigir unrhyw sifft gyfan y mae angen adnoddau criw dwbl ar ei chyfer i ddarparwyr preifat. Yn sgil pwysau diweddar i gyrraedd targedau perfformiad ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chwm Taf, mae mwy o ambiwlansys preifat wedi cael eu defnyddio ers mis Mawrth 2015.

### Asesiad archwilio

**58.** Gall yr Ymddiriedolaeth ddangos ei bod wedi ystyried yr adnoddau sydd eu hangen ac wedi ceisio llenwi bylchau gweithredol cyn defnyddio ambiwlansys preifat i ateb y galw na cheir adnoddau ar ei gyfer. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol bod y defnydd o ambiwlansys preifat yn fater sy'n ennyn teimladau cryf. Y mae ar hyn o bryd yn cynnal ymgyrch recriwtio i lenwi'r swyddi gwag presennol ymhlith y staff, a ddylai leihau'r angen i ddefnyddio criwiau ambiwlans preifat.

## Pryder 11 - Y defnydd o gyflenwadau'r GIG gan griwiau ambiwlans preifat

**59.** Yn ôl y contractau â darparwyr ambiwlans preifat, mae'n rhaid i ddarparwyr gyflenwi'r cerbydau, y criwiau a'r holl gyflenwadau meddygol. Mae rhai criwiau ambiwlans wedi bod yn defnyddio cyflenwadau'r GIG i lenwi eu cerbydau.

### Ymateb y Rheolwyr

**60.** Cyfrifoldeb darparwyr preifat yw sicrhau bod ganddynt yr holl gyfarpar a'r holl gyflenwadau angenrheidiol ar ddechrau sifft weithredol. Fodd bynnag, oherwydd y pellter oddi wrth eu gorsafoedd cartref, mae cytundebau lleol wedi cael eu rhoi ar waith i ailgyflenwi eitemau gwerth isel defnydd unigol ar sail tebyg am ei debyg. Mae timau lleol wedi adrodd am ddau achlysur lle cymerwyd stoc ormodol o gyflenwadau'r GIG, ac rydym wedi trafod hyn â rheolwyr y darparwyr preifat. Mae trefn gaffael ac ailgyflenwi gorsafoedd ambiwlans ac ysbytai wedi gwella ers sefydlu warws ganolog.

### Asesiad archwilio

***61.*** Yn dilyn cais am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r achosion lle cymerwyd gormod o stoc, dywedodd Pennaeth Gweithrediadau'r Ymddiriedolaeth wrthym nad oedd unrhyw broblemau *"wedi'u hadrodd drwy ein prosesau arferol. Mae'n bosibl bod y ffaith bod cerbydau St Johns yn gallu defnyddio ein cyflenwadau i ailgyflenwi wedi achosi dryswch yn hyn o beth, gan fod y cytundeb â sefydlwyd â hwy yn rhoi cyfrif am hynny."*

**62.** Yn ein barn ni, bu ymatebion Rheolwyr ynghylch y mater hwn yn anghyson, ac nid ydynt wedi ymdrin yn uniongyrchol â'r pryder a fynegwyd. Nid ydym wedi cael sicrwydd bod rheolaethau effeithiol ar waith i atal criwiau ambiwlans preifat rhag gwneud defnydd anghyfreithlon o gyflenwadau'r GIG. Argymhellwn y dylai'r Rheolwyr ofyn i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygu dibynadwyedd a chadernid y rheolaethau dros fynediad at gyflenwadau'r GIG, a'r defnydd ohonynt gan griwiau ambiwlans preifat a chriwiau ambiwlans y GIG.

## Pryder 12 - Diwydrwydd dyladwy darparwyr ambiwlans preifat

**63.** Roedd un o'r darparwyr ambiwlans preifat yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn ei ddefnyddio yn rhoi copïau o gerdyn busnes i staff yr Ymddiriedolaeth a chanddo hysbyseb ar gyfer gwasanaeth tebyg i wasanaeth cydymaith ar yr ochr arall.

### Ymateb y Rheolwyr

**64.** Mae'r Rheolwyr yn meddwl eu bod yn gwybod pwy yw'r unigolyn a'r darparydd dan sylw. Ym mis Ionawr 2015, penderfynwyd peidio dyfarnu contract i'r darparydd hwn oherwydd pryderon ynghylch diwylliant proffesiynol y darparydd. Ym mis Chwefror 2015, canfu'r Rheolwyr fod yr unigolyn wedi cael ei gyflogi gan ddarparydd preifat arall. Terfynodd yr Ymddiriedolaeth ei gontract â'r darparydd preifat hwn. Ym mis Ebrill 2015, canfuwyd bod yr unigolyn wedi cael ei gyflogi gan ddarparydd preifat arall eto. Gofynnwyd i'r darparydd hwn roi'r gorau i ddefnyddio'r unigolyn ar gontract yr Ymddiriedolaeth.

**65.** O fis Ebrill 2015, mae'n ofynnol i bob darparydd preifat ofyn am gymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer aelodau unigol o staff a ddefnyddir ar gontractau'r Ymddiriedolaeth. Gofynnir i ddarparwyr roi tystiolaeth bod gan unigolion ddatgeliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, eu bod yn meddu ar gymwysterau ambiwlans y DU, a'u bod yn cymryd rhan mewn cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Mae Rheolwyr yr Ymddiriedolaeth o'r farn fod y rheolwyr adnoddau yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i'r risg i enw da.

### Asesiad archwilio

**66.** Cyn gynted ag y daeth yr Ymddiriedolaeth i wybod am y pryder, cymerwyd camau trwyadl i sicrhau nad oedd yr unigolyn dan sylw yn cael ei ddefnyddio i gyflenwi gwasanaethau ambiwlans preifat i'r Ymddiriedolaeth. Ers mis Ebrill 2015, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau i'w bodloni ei hun fod cymwysterau proffesiynol gan staff a gyflogir gan ddarparwyr ambiwlans preifat i gyflenwi contractau'r Ymddiriedolaeth, a'u bod wedi'u gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. O ystyried y digwyddiad dan sylw, argymhellwn y dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i atgoffa'r staff ynglŷn â'r dulliau y gellir eu defnyddio i godi pryderon, fel y rhain, yn fewnol.

## Trefniadau goramser

### Pryder 13 - Goramser y GGC

**67.** Mae aelodau staff y Gwasanaeth Gofal Cleifion wedi cael eu galw i mewn i weithio goramser ar benwythnosau ar amser dwbl, tra nad oes gan griwiau sydd ar ddyletswydd unrhyw waith i'w wneud.

#### Ymateb y Rheolwyr

**68.** Mae'n bolisi gan yr Ymddiriedolaeth i beidio â defnyddio staff argyfwng ar ddyletswydd i drosglwyddo cleifion. Bob dydd bydd yr Adran Adnoddau'n cynnal adolygiad canolog o'r oriau a weithir gan barafeddygon a staff y Gwasanaeth Gofal Cleifion. Wedyn, caiff gofynion goramser eu hasesu, a bydd y rhai sy'n barod i weithio goramser yn ymrwymo i hynny ymlaen llaw.

#### Asesiad archwilio

**69.** Mae'r dull o weithredu yn gysylltiedig â goramser yn gyson drwy'r holl Ymddiriedolaeth. Am resymau amlwg, mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu na ddylid defnyddio staff argyfwng ar ddyletswydd er mwyn trosglwyddo cleifion.

**70.** Er bod Rheolwyr yr Ymddiriedolaeth wedi rhoi sicrwydd ynghylch y trefniadau goramser sydd ar waith, ystyriwn y byddai'n fuddiol i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi'r trefniadau hyn.

## Dosbarthu galwadau ac amseroedd ymateb

### Pryder 14 - Dosbarthu galwadau

**71.** Mae'n gyffredin i Ystafell Reoli De Ddwyrain Cymru newid dosbarthiad galwadau ar ôl i ambiwlansys adael, hy, bydd galwad yn cael ei dosbarthu'n wyrdd, ond wedyn yn cael ei huwchraddio i goch pan fo’r ambiwlans yn ddigon agos i gyrraedd y targed ymateb. Canlyniad hyn yw ystumio'r adroddiadau ar amseroedd ymateb.

#### Ymateb y Rheolwyr

**72.** Mae pob un o ystafelloedd rheoli'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu ar sail Cymru gyfan wrth dderbyn galwadau. Mae'r alwad i ddechrau'n cael ei dyrannu i'r Ystafell Reoli yn ardal ddaearyddol yr alwad, ond os nad oes unrhyw un ar gael i dderbyn yr alwad, caiff ei hail-lwybro i un o'r ystafelloedd rheoli eraill. Wrth ddosbarthu'r alwad i ddechrau, defnyddir cod awtomatig yn seiliedig ar ymateb y galwr i gyfres o gwestiynau sgript. Ceir achlysuron pan fydd galwadau'n cael eu huwchraddio neu eu hisraddio'n ddilys. Mae angen gwneud hyn pan fydd cyflwr y claf yn newid, pan fydd y galwr yn darparu rhagor o wybodaeth neu ar ôl i'r Ddesg Glinigol gynnal ail-asesiad brysbennu.

73. Pan fydd dosbarthiad cyntaf yr alwad yn cael ei newid, ni fydd hynny'n cael unrhyw effaith ar y targedau ymateb a gyrhaeddir. Y rheswm am hyn yw bod y cloc yn dechrau tician o'r adeg pan fydd prif gŵyn y claf yn cael ei nodi. Gan hynny, os bydd galwad yn cael ei huwchraddio i'r dosbarth coch, mesurir yr amser ymateb o'r adeg pan fydd y brif gwyn yn cael ei nodi hyd at yr adeg pan gyrhaeddir y digwyddiad, yn hytrach nag o'r adeg pan fydd yr alwad yn cael ei huwchraddio.

74. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal adroddiadau 'Desg Glinigol System Brysbennu Manceinion' sy'n darparu data ystadegol ar uwchraddio ac israddio dosbarthiad galwadau. Mae canran y galwadau a gaiff eu huwchraddi'n isel, (llai na 1.5 y cant).

75. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu prynu a gweithredu system Dosbarthu gyda Chymorth Cyfrifiadur newydd. Ar ôl sefydlu'r system hon, bydd ystafelloedd rheoli'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu ar sail Cymru gyfan wrth dderbyn galwadau a hefyd wrth anfon criwiau a y digwyddiadau hynny.

### Asesiad archwilio

76. Mae ymateb y Rheolwyr yn gyson â'r model dosbarthu a gofnodwyd gan yr Ymddiriedolaeth. Yn rhan o'n hymholiadau archwilio, arsylwyd y system ar waith yn ystafell reoli De Ddwyrain Cymru, ac ar sail y gwaith hwnnw, ac ar gyfweliad â staff yr Ystafell Reoli, cadarnhawyd bod y broses yn gyson â disgrifiad y Rheolwyr. Yn ogystal a hyn, cawsom adroddiad o'r system a ddangosai fod 419 o alwadau wedi'u hailddosbarthu rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2015, ac mai ond 35 ohonynt a gyrhaeddodd y targed amser ymateb. Rydym yn fodlon bod y dystiolaeth yn dangos nad yw amseroedd ymateb yn cael eu hystumio drwy ailddosbarthu galwadau.

## Pryder 15 - Cywirdeb wrth gofnodi amseroedd ymateb - problemau gyda'r llyw lloeren

77. Mae'r system llyw lloeren a ddefnyddir mewn cerbydau argyfwng yn diffodd ar ôl cyrraedd cod post y gyrchfan, ac fe geir cofnod awtomatig bod y cerbyd wedi cyrraedd y digwyddiad. Fodd bynnag, yn achos rhai galwadau ni fydd y cerbyd wedi cyrraedd y digwyddiad, hyd yn oed ar ôl cyrraedd y cod post. O ganlyniad i hynny, mae amseroedd ymateb yn cael eu tanadrodd. Gall staff anwybyddu'r system drwy bwyso botwm ar sgrin gyffwrdd y cerbyd i gofnodi amser cyrraedd digwyddiad. Fodd bynnag, nid yw'r sgriniau cyffwrdd yn gweithio mewn amryw o'r cerbydau.

### Ymateb y Rheolwyr

78. Mae'r Rheolwyr yn ymwybodol y gall y system gyfredol weithiau gofnodi bod cerbyd wedi cyrraedd digwyddiad, er nad yw'r cerbyd wedi cyrraedd mewn gwirionedd. Fodd bynnag, nid yw'r system yn cofnodi bod y cerbyd wedi cyrraedd y digwyddiad onid yw o fewn 200 llath o'r lleoliad. Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, pan fydd damwain yn digwydd ar y draffordd, a’r ambiwlans yn teithio i'r cyfeiriad arall. Wrth i'r gyrrwr fynd heibio'r digwyddiad, bydd y system yn cofnodi'n awtomatig fod y cerbyd wedi cyrraedd y digwyddiad. Er hynny, bydd angen i'r gyrrwr fynd yn ei flaen i'r gyffordd nesaf a dychwelyd at y digwyddiad.

**79.** Mae elfen awtomatig y system yn cael ei hanwybyddu gan y criwiau, y mae'n ofynnol iddynt bwyso sgrin gyffwrdd y cerbyd â llaw i gofnodi bod yr ambiwlans wedi cyrraedd y digwyddiad. Ar adegau, bydd criwiau'n anghofio pwyso'r sgrin i gofnodi eu bod wedi cyrraedd y digwyddiad, felly yn yr achosion hynny defnyddir y data awtomatig.

**80.** Rydym yn cydnabod hefyd fod y sgriniau cyffwrdd ar rai cerbydau'n gallu bod yn anwadal a datblygu namau. Nid yw'r sgriniau cyffwrdd ychwaith yn ymateb bob tro pan fydd aelodau o staff yn gwisgo menig latecs. Os yw sgriniau cyffwrdd yn ddiffygiol, disgwylir i staff adrodd y namau, ac eir i'r afael â'r holl namau a adroddir.

**81.** Bydd staff o fewn yr Ystafell Reoli yn monitro'r amseroedd ymadael a chyrraedd a gofnodir, a lle bo anghysondebau clir, maent yn cysylltu â'r criw er mwyn cael cadarnhad o'u nodiadau ynghylch yr amseroedd perthnasol.

**82.** Mae'r system a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth yn system a ddefnyddir gan lawer o Ymddiriedolaethau ambiwlans eraill, ac yn defnyddio'r data gorau sydd ar gael i'r gwasanaeth. Er ei bod hi'n bosibl, mewn nifer bach iawn o alwadau, y ceir cofnod bod cerbyd wedi cyrraedd digwyddiad pan nad yw wedi cyrraedd eto, mae unrhyw effaith bosibl ar yr amseroedd ymateb yn ddibwys.

### Asesiad archwilio

**83.** Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r pryder yn gadarn. Yn achos rhai galwadau, mae'r Rheolwyr yn cydnabod bod ffin gwall fechan o fewn y system wrth gofnodi'r amser a gymerir i gerbydau gyrraedd digwyddiad. Mae'r math hwn o wall system yn gyffredin ymhlith y mwyafrif o ymddiriedolaethau ambiwlans, os nad y cyfan ohonynt, ac mae ei effaith yn ddibwys. Ceir trefniadau cadarn i liniaru'r risg o adrodd amseroedd ymateb yn anghywir drwy'r system ddeuol o gofnodi amseroedd cyrraedd digwyddiad yn awtomatig ac â llaw, a thrwy'r ffaith bod yr Ystafell Reoli'n adolygu anghysondebau. Mae ymateb y Rheolwyr wedi cael ei brofi drwy drafod â staff yr Ystafell Reoli. Fodd bynnag, o ystyried y gydnabyddiaeth bod sgriniau cyffwrdd yn gallu bod yn anwadal mewn rhai cerbydau, argymhellwn y dylai'r Ymddiriedolaeth gyflwyno nodyn atgoffa i'r staff ynghylch pwysigrwydd adrodd am gyfarpar diffygiol, a'i bod hefyd yn cynnal trywydd archwilio clir er mwyn dangos bod diffygion a adroddir yn cael eu hasesu a'u hunioni'n brydlon.

## Pryderon ynghylch diogelwch cleifion

## Pryder 16 - Batris diffibrilwyr

**84.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio batris ar gyfer ei diffibrilwyr sydd gryn dipyn yn hŷn na'r oes o 18 mis a argymhellir ar eu cyfer, gyda rhai ohonynt wedi'u prynu mor bell yn ôl â 2007/08. Mae rhai o'r batris hyn wedi methu wrth gael eu defnyddio, ac fe allai hynny beryglu diogelwch cleifion. Oherwydd hyn, mae criwiau ambiwlans yn cario mwy o fatris sbâr nag y byddent fel arfer.

### Ymateb y Rheolwyr

**85.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio diffibrilwyr gan un gwneuthurwr ac yn cynnal ei wiriadau rheolaidd ei hun mewn gorsafoedd er mwyn canfod a yw'r diffibrilwyr yn ddefnyddadwy. Mae gan yr Ymddiriedolaeth hefyd gontract gwasanaeth â'r gwneuthurwr ar gyfer cynnal ei holl ddiffibrilwyr a'r batris. Mae'r gwneuthurwr yn rhoi gwasanaeth i'r holl ddiffibrilwyr ac yn gwirio'r batris bob chwe mis, ac wedi nodi bod disgwyl i fatris gael oes o ddwy flynedd. Ni chaiff batris diffygiol eu defnyddio mwyach, nac ychwaith unrhyw fatris sydd wedi mynd heibio i'w hoes o ddwy flynedd. Mae'n bosibl y bydd rhai batris yn mynd heibio i'w hoes o ddwy flynedd rhwng gwasanaethau chwe-misol y gwneuthurwr. Fodd bynnag, mae gan bob cerbyd fatri sbâr, ac os bydd batri'n methu wrth ei ddefnyddio, mae'n ofynnol i'r staff roi gwybod am hynny. Nid yw'r Rheolwyr wedi cael unrhyw adroddiadau bod batris diffibrilwyr wedi methu wrth gael eu defnyddio.

### Asesiad archwilio

**86.** Mae ymateb y Rheolwyr yn rhoi lefel dda o sicrwydd nad yw diogelwch cleifion yn cael ei beryglu. Argymhellwn y dylid atgoffa'r staff ynglŷn â'u dyletswydd i adrodd am gyfarpar nad yw'n gweithio.

## Pryder 17 - Llyw lloeren awtomatig

**87.** Mae system llyw lloeren yr ambiwlans yn diffodd yn awtomatig wrth gyrraedd cod post y gyrchfan. Mewn rhai ardaloedd daearyddol, gall hyn ddigwydd pan fo'r ambiwlans yn dal i fod ddeng munud neu fwy i ffwrdd o'r union gyfeiriad. Gall hyn achosi oedi cyn cyrraedd y digwyddiad, oherwydd gallai fod angen i gerbydau ymateb cyflym stopio i wirio union leoliad y cyfeiriad gan fod y system llyw lloeren wedi diffodd.

### Ymateb y Rheolwyr

**88.** Nid yw'r system llyw lloeren yn diffodd pan gyrhaeddir cod post y gyrchfan, ac nid yw'r Rheolwyr yn gwybod am unrhyw barafeddygon sy'n defnyddio eu dyfeisiau llyw lloeren eu hunain er mwyn canfod cyrchfannau. Ni fyddai eu dyfais eu hunain ychwaith yn gywirach wrth ganfod cyrchfannau na'r system a geir yn y cerbyd.

**89.** Mae'r system llyw lloeren yn y cerbyd yn derbyn gwybodaeth a fwydir yn awtomatig am gyfeiriad y digwyddiad, yn ogystal â'r cyfesurynnau daearyddol. Caiff yr alwad argyfwng ei chofnodi yn ôl ei chyfesurynnau daearyddol, a bwydir yr wybodaeth hon i gerbydau argyfwng mewn amser real. Mae'r cyfesurynnau'n gywir hyd at 200 llath i'r digwyddiad, os bydd y sawl sy'n galw yn ffonio o safle'r digwyddiad.

**90.** Pan na fydd yr alwad 999 yn cael ei gwneud o safle'r digwyddiad, efallai na fydd yr Ystafell Reoli yn gallu rhoi gwybodaeth fanwl am y gyrchfan i'r ambiwlans a anfonwyd i'r digwyddiad. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yr Ystafell Reoli yn ceisio cael mwy o wybodaeth am y lleoliad tra bo'r ambiwlans ar ei ffordd. Gall hyn olygu gofyn cwestiynau i'r sawl sy'n galw neu gysylltu â gwasanaethau brys eraill. Bydd unrhyw wybodaeth newydd a geir wedyn yn cael ei throsglwyddo i griw'r ambiwlans. Os na fydd criw yn gallu cael hyd i safle digwyddiad, mae disgwyl iddynt gysylltu â'r ystafell reoli er mwyn cael cyngor pellach.

### Asesiad archwilio

**91.** Mae'r Rheolwyr wedi ymateb i'r pryder mewn modd cadarn a rhesymegol. Mae'r ymateb wedi cael ei gadarnhau drwy arsylwi prosesau ar waith o fewn yr Ystafell Reoli, a thrwy gyfweld â staff yr Ystafell Reoli.

## Pryder 18 - Y defnydd o fatresi gwactod

**92.** Yn 2012, prynodd yr Ymddiriedolaeth nifer o fatresi gwactod er mwyn cynorthwyo i gludo cleifion ag anafiadau i'w hasgwrn cefn. Tybiwyd bod y defnydd ohonynt yn hanfodol wrth ofalu am y cleifion hyn, a phrynwyd digon o'r matresi i lenwi holl ambiwlansys yn fflyd. Fodd bynnag, roedd y matresi a brynwyd yn rhy fawr i'w cludo yn yr ambiwlansys. Oherwydd hynny, nid ydynt erioed wedi cael eu defnyddio.

### Ymateb y Rheolwyr

**93.** Cafodd matresi gwactod eu prynu ar gyfer holl ambiwlansys y fflyd yn 2012 (yn ogystal â rhai sbâr ar gyfer ysbytai a gorsafoedd gwasanaeth ambiwlansys). Mae hyn yn wahanol i nifer o'r ymddiriedolaethau ambiwlans yn Lloegr, lle na phrynwyd y matresi ond wrth gyflwyno ambiwlans newydd i'r fflyd. Y rheswm am hyn oedd bod y matresi gwactod yn llawer mwy effeithiol i glaf ag anafiadau i'w asgwrn cefn na'r bwrdd fflat traddodiadol. Roedd angen addasu'r ambiwlansys oedd yn cael eu defnyddio er mwyn canfod lle i gadw’r fatres. Mae cwpwrdd wedi'i gynllunio'n arbennig wedi cael ei osod gan y gwneuthurwr ar ambiwlansys a chanddynt rifau cofrestru 2012 a hwyrach. Mae ambiwlansys a chanddynt rif cofrestru 2010 hyd at ddechrau 2012 wedi cael eu haddasu i greu gofod mewnol ar gyfer y fatres. Rhoddir gwasanaeth rheolaidd i'r ambiwlansys hyn, sy'n cynnwys gosod cyfarpar y tu mewn i'r cerbydau. Ni adroddwyd bod unrhyw un o'r matresi gwactod ar goll yn rhan o'r adolygiadau gwasanaeth hyn.

**94.** Mae ambiwlansys a chanddynt rif cofrestru '07 a '57 sy'n dal i gael eu defnyddio gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi cael eu haddasu fel bo modd cludo'r fatres mewn cwpwrdd ar y tu allan i'r cerbyd. Mae'r Rheolwyr yn derbyn nad yw'n ddelfrydol lleoli'r matresi gwactod y tu allan i'r cerbyd, ac mae'n bosibl bod y matresi wedi cael eu tynnu o rai o'r cerbydau. Fodd bynnag, bydd ambiwlansys newydd yn dod i ddisodli pob un o'r ambiwlansys a chanddynt rifau cofrestru '07 a '57 yn ystod y 12 mis nesaf, ac nid yw yr un o'r cerbydau hyn yn cael eu defnyddio fel cerbydau sy'n ymateb i argyfwng.

**95.** Mae'r Rheolwyr o'r farn fod yr honiad yn anghywir a bod yr holl ambiwlansys a ddefnyddir fel cerbydau ymateb argyfwng yn cludo'r matresi'n fewnol.

### Asesiad archwilio

**96.** Rydym yn fodlon â'r ymateb a gafwyd gan y Rheolwyr i'r pryder hwn.

## Pryder arall na adolygwyd yn rhan o'r archwiliad hwn

## Pryder 19 - Caffael Ambiwlansys Renault

**97.** Prynodd yr Ymddiriedolaeth ambiwlansys Renault tua wyth mlynedd yn ôl. Oherwydd manyleb y cerbydau, roeddent yn rhy drwm ac ni allent gludo'r cyfarpar angenrheidiol, na chael cyflenwad llawn o danwydd.

### Asesiad archwilio

**98.** Cynhaliodd PriceWaterhouseCoopers adolygiad annibynnol a rhoi adroddiad llawn ar y mater caffael hwn yn 2006. Gan hynny, ystyriwyd nad oedd angen cymryd unrhyw gamau archwilio pellach.

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad | Derbyn | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Rydym yn argymell bod Archwiliad Mewnol (AM) yn cynnal adolygiad i gadarnhau bod y taliad dyblyg a nodwyd yn y contract cynnal a chadw fflyd yn enghraifft ynysig, a bod rheolaethau'r Ymddiriedolaeth i atal a chanfod taliadau dyblyg yn fwy cyffredinol yn gadarn ac yn gweithredu'n effeithiol. Fel rhan o'r gwaith hwn, dylid cael asesiad o'r trefniadau sydd gan yr Ymddiriedolaeth yn eu lle i sicrhau bod anfonebau yn cael eu talu mewn modd amserol, a thrwy hynny osgoi'r angen i'r cwmni anfon anfonebau dyblyg (gweler pryder 2). | Ie | Cwblhawyd yr argymhelliad hwn gan yr Archwilwyr Mewnol a chyhoeddwyd adroddiad drafft. Mae argymhellion gan AM i ychwanegu rheolaeth ychwanegol at y broses.<br>Datblygir hyn o fewn yr Ymddiriedolaeth. | Ebrill 2016 (ar gyfer Adroddiad AM) | Patsy Roseblade – Cyfarwyddwr Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad | Derbyn | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| A2 | Rydym yn argymell bod Bwrdd Caffael yr Ymddiriedolaeth yn adolygu defnydd a lleoliad yr ambiwlansys bws Landrover Discovery a Mercedes i benderfynu a yw'r angen yn parhau am y cerbydau hyn, a'u bod yn cael eu defnyddio yn y modd gorau bosibl (gweler pryderon 3 a 4). | Ie | Mae'r Landrover Discoveries wedi'u lleoli yn y lleoliadau gorau posibl fel bod yr Ymddiriedolaeth yn gallu ymateb i ardaloedd y bernir sy'n anhygyrch gan Ambiwlans Brys (EA) neu Gerbyd Ymateb Cyflym (RRV) yn ystod cyfnodau o dywydd garw, yn bennaf yn ystod misoedd y gaeaf.<br>O ystyried y costau rhedeg uchel, mae Bwrdd Caffael Cerbydau yr Ymddiriedolaeth yn monitro'r milltiroedd a wneir gan y Landrover Discoveries yn ystod y cyfnodau Gwanwyn, Haf a'r Hydref, a allai gael ei ystyried fel anweithgarwch; fodd bynnag, mae hyn yn ymwneud fwy â chadw tŷ darbodus.<br><br>Bydd adolygiad o'r defnydd o'r bws Mercedes yn cael ei gwblhau a phenderfyniad yn cael ei wneud ar werth perchnogaeth barhaus | 7 Ebrill 2016<br><br>Diwedd Mehefin 2016 | Gordon Roberts – Dirprwy Gyfarwyddwr, Gweithrediadau<br><br>Nick Smith<br>Dirprwy Gyfarwyddwr NEPTS |
| A3 | Rydym yn argymell bod yr Ymddiriedolaeth yn adolygu ei strategaeth rheoli cerbydau er mwyn sicrhau ei bod yn gadarn ac yn cyd-fynd â strategaeth gyffredinol yr Ymddiriedolaeth a gofynion gweithredol yn y dyfodol. (gweler pryder 6). | Ie | Ar hyn o bryd mae'r Ymddiriedolaeth yn cwblhau proses dendro ar gyfer cyflenwi adolygiad o alw a chapasiti. Mae'r adolygiad yn cynnwys gofynion i asesu'r math a nifer o gerbydau, o ystyried y gyfres o amcanion canlyniadau gweithredol. Bydd hyn yn sail i strategaeth cerbydau, a datblygiad SOP 3 blynedd. | Hydref 2016 | Richard Lee – Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro |

| Cyf | Argymhelliad | Derbyn | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| A4 | Rydym yn argymell bod Archwiliad Mewnol yn cynnal adolygiad i brofi bod trefniadau yn eu lle i gael gwared ag offer sydd dros ben, wedi darfod ac yn diffygiol. Dylai'r profion pellach hyn geisio sicrhau bod aliniad priodol rhwng trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer gwaredu offer a phrinder offer a nodwyd mewn mannau eraill yn y sefydliad (gweler pryder 7). | Ie | Cynhwyswyd hyn yng nghynllun gwaith Archwilio Mewnol ar gyfer 2015/16. Mae'r gwaith maes bron wedi'i gwblhau, a disgwylir cyhoeddi'r adroddiad ym mis Ebrill 2016. | Ebrill 2016 | Patsy Roseblade – Cyfarwyddwr Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad | Derbyn | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| A5 | Mae angen i'r Ymddiriedolaeth barhau i roi ystyriaeth i effeithiolrwydd ei strategaeth gyfathrebu â staff a'r mecanweithiau i sicrhau bod polisi a gwybodaeth weithredol am systemau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth yn cael eu lledaenu yn effeithiol i staff (amrywiol bryderon, e.e. yn ymwneud ag 8 a 9 a 14). | Ie | Yn ddiweddar, penododd yr Ymddiriedolaeth aelod ychwanegol o staff i'w Thîm Cyfathrebu, a fydd â chyfrifoldeb ar wahân ar gyfer cyfathrebu mewnol.<br>Bydd hyn yn cynnwys adolygiad llawn o fecanweithiau cyfathrebu mewnol presennol, ymarfer gwrando gyda staff ac undebau llafur i ddeall y ffyrdd mwyaf effeithiol o ymgysylltu â staff ac, mewn ymateb, i ddatblygu cyfres briodol o offer cyfathrebu ac ymgysylltu i gefnogi gwell cyfathrebu mewnol. Bydd rheolwyr lleol hefyd yn derbyn gwell canllawiau a nodiadau atgoffa ynghylch eu hatebolrwydd lleol o ran sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i staff, yn enwedig yng nghyswllt newidiadau mewn polisïau, systemau a gweithdrefnau. | Mawrth 2017 (gydag adolygiad blynyddol) | Cyfarwyddwr Arweiniol:<br>Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu<br><br>Swyddog Cyfrifol:<br>Pennaeth Cyfathrebu |
| A6 | Rydym yn argymell bod Archwiliad Mewnol (AM) yn adolygu dibynadwyedd a chadernid y rheolaethau mynediad i gyflenwadau GIG a'r defnydd ohonynt gan griwiau ambiwlans GIG a phreifat (gweler pryder 11). | Ie | Cynhwyswyd hwn yng nghynllun gwaith AM 2016/17. | Diwedd Ch2 2016/17 (i'w gadarnhau gydag AM) | Patsy Roseblade – Cyfarwyddwr Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad | Derbyn | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| A7 | Rydym yn argymell bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i atgoffa staff o'r mecanweithiau ar gyfer codi pryderon yn fewnol (gweler pryder 12). | Ie | Gan weithio'n agos gyda Chyfarwyddwr y Gweithlu ac OD a phartneriaid undebau llafur, rhoddir nodiadau atgoffa cyfnodol i staff ar draws sianelau cyfathrebu'r Ymddiriedolaeth. Mae hyn eisoes wedi dechrau yn 2016. | O bryd i'w gilydd ar sail barhaus o fis Ionawr 2016 | Cyfarwyddwr Arweiniol: Claire Vaughan Cyfarwyddwr y Gweithlu ac OD |
| A8 | Rydym yn argymell bod Archwiliad Mewnol (AM) yn cynnal adolygiad i brofi effeithiolrwydd trefniadau goramser yr Ymddiriedolaeth (gweler pryder 13). | Ie | Cynhwyswyd hwn yng nghynllun gwaith AM 2016/17. | Diwedd Ch2 (i'w gadarnhau gydag AM) | Patsy Roseblade – Cyfarwyddwr Cyllid |
| A9 | Rydym yn argymell bod yr Ymddiriedolaeth yn anfon nodyn atgoffa clir i staff ynglŷn â phwysigrwydd adrodd ynglŷn ag offer diffygiol, a bod trywydd archwilio clir yn cael ei gynnal i ddangos bod diffygion yr adroddwyd amdanynt yn cael eu hasesu a'u cywiro mewn modd amserol (gweler pryderon 15 a 16). | Ie | Anfonir bwletin cyfarpar clinigol i atgoffa staff ac arweinwyr tîm am eu cyfrifoldebau o ran adrodd ynglŷn ag offer diffygiol.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal contractau atgyweirio a chynnal a chadw i'r holl gyfarpar clinigol y gellir eu hailddefnyddio, a darperir adroddiadau rheolaidd ar weithgarwch o dan y contractau hyn i Reolwr Cyfarpar Clinigol yr Ymddiriedolaeth, sy'n eu hadolygu. | Diwedd Ebrill 2016 | Jonathan Wilson – Rheolwr Offer Clinigol a Chaffael |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru